

THOMAS, THOMAS (1804 - 1877), clericwr

Enw: Thomas Thomas
Dyddiad geni: 1804
Dyddiad marw: 1877
Plentyn: Thomas Llewelyn Thomas
Rhiant: John Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 7 Hydref 1804, mab John Thomas o Lanfihangel-y-Creuddyn, Sir Aberteifi. Cafodd ei addysg yn Ystrad Meurig ac ymaelododd ym Mhrifysgol Rhydychen o Goleg Iesu, 29 Mawrth 1824. Graddiodd yn 1827, ac ar ôl bod yn athro yn Lerpwl am flwyddyn ordeiniwyd ef yn ddiakon gan yr esgob Luxmoore o Lanelwy, 20 Gorffennaf 1828, a'i drwyddedu i Lanfair Caer Einion. Derbyniodd urddau offeiriad, 26 Gorffennaf 1829, ac ar ôl tair blynedd yn Llanfair daeth yn guraad Rhiwabon. Ar 14 Ebrill 1835 penodwyd ef yn ficer Llanbeblig a Chaernarfon gan yr esgob Sumner o Gaer, a bu yno 24 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn adeiladodd ysgolion yn y dref a gwneuthur gwaith bugeiliol gwerthfawr; bu ganddo hefyd ran flaenllaw yn sefydlu Coleg Hyfforddi Gogledd Cymru (yn awr Coleg y Santes Fair ym Mangor). O Gaernarfon dychwelodd i Riwabon yn ficer, ac ar ôl tair blynedd yno penodwyd ef i Lanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Yn 1864 penodwyd ef yn ganon yn eglwys gadeiriol Bangor.

Bu iddo ef a'i wraig dair merch a phum mab - un o'i meibion oedd yr ysgolhaig, athro a'r ieithydd [Thomas Llewelyn Thomas](#) (1840-1897). Bu Thomas Thomas farw yn Lanrhaeadr-yng-Nghinmeirch 9 Ionawr 1877, a'i gladdu ym mynwent Llanbeblig, Nghaernarfon.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Harriet Thomas, *Father and Son* (London 1898), 1898

Foster, *Alumni Oxonienses*

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874)

Cofrestrî Esgobaeth Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [309675235](#)

Wikidata: [Q7794428](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.